

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 18.03.2016

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl : ADOLYGIAD O LEOLIADAU DIOGEL ISEL A CHANOLIG YN Y SECTOR ANNIBYNNOL

Dyddiad dod i ben / Adolygu 18.03.2016

**I'w weithredu gan:
(neu er gwybodaeth) gan:**

Cadeiryddion
Prif Weithredwyr
Ysgrifenyddion Byrddau
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Nyrsio

I'w weithredu:

(neu er gwybodaeth) gan:

Cyfarwyddwr Cyffredinol / Prif weithredwr GIG
Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Polisi a Phroffesiynol
Tîm Gweithrediadau AIGC
Tîm Comms AIGC
Tîm Digidol AIGC

Angen gweithredu erbyn:

Anfonir gan:

Jean White – y Prif Swyddog Nyrsio

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Jean White: CNO – y Gyfarwyddiaeth Nyrsio – jean.white@wales.gsi.gov.uk – 02920 825517

Adolygu lleoliadau diogel isel a chanolig yn y sector annibynnol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Bydd ail gam yr adolygiad ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl.

Diben y cylchlythyr hwn yw eich hysbysu o broses adolygu sy'n cael ei rhoi ar waith ar gyfer lleoliadau diogel isel a chanolig yn ysbytai'r sector annibynnol a gomisiynwyd gan y GIG yng Nghymru.

1. Ac yntau wedi cael gwybodaeth am ofal yn ysbytai'r sector annibynnol ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu, mae'r Gweinidog wedi penderfynu cychwyn adolygiad o leoliadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn ysbytai diogel isel a chanolig yn y sector annibynnol.
2. Y cwestiynau allweddol a ofynnir yn ystod yr adolygiad yw:
 - I. Sut y mae darparwyr gwasanaethu mewn ysbytai diogel isel i ganolig yn y sector annibynnol yn sicrhau bod anghenion iechyd gofal sylfaenol yn cael eu diwallu?
 - II. A yw'r lleoliad yn cynnig y math mwyaf priodol o wasanaeth i'r cleifion unigol?
 - III. A oes cynllun cynhwysfawr yn bodoli ar gyfer rhyddhau cleifion?
 - IV. Beth yw effaith y mesur iechyd meddwl ar brofiad/ canlyniadau cleifion i bobl yn ysbytai'r sector annibynnol?
3. Y Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaethau yn y sector hwn. Rhaid i drefniadau comisiynu sicrhau cydymffurfedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gan fod gan bob claf yn y lleoliadau hyn gydgysylltydd.
4. Mae'r broses gomisiynu a sicrwydd ansawdd yn y ddarpariaeth hon yn cael ei rheoli gan Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru (NCC) ar ran y byrddau iechyd. Mae NCC yn goruchwyllo'r holl leoliadau yn y sector annibynnol trwy'r Fframweithiau Cenedlaethol, yn gallu cael gafael ar y data priodol ac yn gallu darparu lefel o gysondeb sy'n ofynnol ar gyfer y broses adolygu.
5. Er ei bod yn glir bod gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gyfrifoldeb dros arolygu yn y sector, o gofio'r elfen yn yr adolygiad sy'n ymwneud â chomisiynu penderfynwyd mai NCC fydd yn arwain proses yr adolygiad hwn. Bydd NCC yn cydweithio'n agos â'r byrddau iechyd lleol, cydgysylltwyr gofal ac AGIC.
6. Bydd y broses adolygu'n dechrau yn Ebrill 2016 ac yn dod i ben erbyn diwedd Gorffennaf 2016

7. Bydd y drefn ar gyfer adolygu darparwyr unigol yn cael eu penderfynu gan NCC a fydd yn cysylltu â byrddau iechyd gyda manylion yr adolygiadau yn gwahodd cynrychiolwyr o blith cydgysylltwr gofal neu staff eraill yn y bwrdd iechyd. Er hynny, os na fydd staff y bwrdd iechyd ar gael bydd yr adolygiad yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun

8. Canlyniadau'r broses adolygu:

- Adroddiad cyffredinol ar ofal sylfaenol (gyda gwybodaeth am ôl troed HB) a gwybodaeth yn arwain at argymhellion
- Adroddiadau unigol yn dilyn yr adolygiadau, gan gynnwys cyfeirio at ffynonellau eraill o dystiolaeth megis adroddiadau AGIC, adolygiadau gofal a thriniaeth a thystiolaeth QAIT gydag argymhellion i gomisiynwyr a chydgyssylltwyr gofal ar ddarparu gofal i'r unigolyn yn y dyfodol
- Adroddiad agregedig cyffredinol gydag argymhellion penodol ar y canlynol:
 - Argymhellion ar gyfer NCC/Comisiynwyr ar leoliadau yn y sector annibynnol
 - AGIC o safbwynt eu rôl wrth ddatblygu manylebau ar gyfer cyflawni a monitro safonau o ran mynediad i ofal sylfaenol
 - Cam nesaf yr adolygiad o gomisiynu lleoliadau yn ysbytai'r sector annibynnol.